Panel Craffu Heddlu De Cymru

Datganiad o Ddiddordeb

Mae craffu yn rhan hollbwysig o sicrhau bod Heddlu De Cymru yn cynnal safonau plismona ac yn darparu gwasanaethau plismona teg wrth ymateb i'w gymunedau.

Mae ein paneli craffu yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i ddwyn y Prif Gwnstabl a Swyddogion yr Heddlu i gyfrif drwy adolygu digwyddiadau go iawn o ddeunydd camerâu a wisgir ar gyrff y swyddogion a rhoi adborth ar y defnydd o bwerau, tactegau a gweithdrefnau plismona.

Drwy ymgysylltu â'r cyhoedd drwy baneli craffu, rydym yn ceisio gwella dealltwriaeth, cyfreithlondeb, hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn plismona.

Eich rôl ar y panel yw adolygu a chraffu ar amrywiaeth o feysydd busnes fel polisïau, asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb a fideo a wisgir ar y corff. Byddwch yn cael deunyddiau perthnasol a all gynnwys gwybodaeth sydd wedi'i thynnu ohonynt er mwyn diogelu hunaniaethau'r rhai sy'n gysylltiedig â'r meysydd.

Ar ôl hyn, mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i chi roi eich barn neu gyflwyno adborth dienw. Gall rhai o'r cwestiynau adborth fod yn opsiynau amlddewis a/neu destun rhydd.

Bydd un o aelodau ein tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gael i ateb unrhyw gwestiynau y gall fod gennych, a bydd dogfen ganllaw yn cael ei darparu o'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r gweithdrefnau ar gyfer swyddogion i gyfeirio atynt. Gallwch ddefnyddio'r ddogfen hon cyn ac yn ystod y cyfarfod panel ei hun.

O ystyried natur y gwaith y mae swyddogion yr heddlu yn ymgymryd ag ef, gallech gael eich amlygu i olygfeydd o natur drallodus fel, trais, rhegfeydd neu amgylchiadau y gallant beri pryder i rai. Gallwch dynnu'n ôl o'r panel unrhyw bryd.

Dim ond y person neu'r grŵp sydd wedi gwneud cais a all gymryd rhan yn y panel. Mae'n ofynnol nad yw'r panel yn cael ei ddatgelu i unrhyw drydydd parti ac nad yw'r partïon hynny yn clywed unrhyw wybodaeth o'r panel hwn. Felly, rhaid bod gennych ardal breifat a/neu glustffonau ar gael, lle y bo'n ofynnol.

Pan fyddwch yn gwneud cais, bydd angen i chi ddarllen a chytuno ar ein Cylch Gorchwyl a'n Cytundeb Cyfrinachedd.

Enw	
Rhif ffôn	
E-bost	
Dyddiad Geni (dd/mm/bbbb)	
Ethnigrwydd	☐ Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig (Gan gynnwys unrhyw gefndir Asiaidd, er enghraifft, Bangladeshaidd, Tsieineaidd, Indiaidd, Pacistanaidd) ☐ Du, Affricanaidd, Du Prydeinig neu CaGibïaidd (Gan gynnwys unrhyw gefndir Du) ☐ Grwpiau ethnig cymysg/lluosog (Gan gynnwys unrhyw gefndir Cymysg) ☐ Gwyn (Gan gynnwys unrhyw gefndir Gwyn) ☐ Grŵp ethnig arall (Gan gynnwys unrhyw grŵp ethnig arall, er enghraifft, Arabaidd) ☐ Gwell gennyf beidio â dweud
Rhywedd	☐ Gwrywaidd ☐ Benywaidd ☐ Dyn traws ☐ Menyw draws ☐ Anneuaidd ☐ Rhywedd hylifol ☐ Rhoi fy nisgrifiad fy hun

	☐ Gwell gennyf beidio â dweud
Pam rydych chi eisiau bod yn rhan o'r panel craffu?	

Rwy'n deall bod y wybodaeth a gaiff ei rhannu a'i thrafod yn ystod y cyfarfod o'r Panel Craffu yn destun Deddf Diogelu Data 2018 ac y gallaf dorri'r atebolrwyddau sifil a/neu droseddol drwy weithredu y tu hwnt i'r cytundeb hwn yn fwriadol neu'n fyrbwyll. Rwyf wedi darllen a deall gofynion Cytundeb Cyfrinachedd Heddlu De Cymru ac yn eu derbyn ac yn cytuno i gydymffurfio â'r amodau hyn. Caiff y wybodaeth ei rhannu â mi at ddiben penodol sy'n berthnasol ac yn briodol i'r cyfarfod. Rhaid i'r Heddlu gytuno i rannu'r wybodaeth hon ymhellach. Rwyf drwy hyn yn cytuno bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir a bod rhoi tic yn y blwch hwn yn awdurdodi'r cytundeb hwn. ☐

Anfonwch y ffurflen Datganiad o Ddiddordeb i EqualityDiversityAndInclusion@south-wales.police.uk.